

TRWY HYN RHODDIR RHYBUDD yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus 2004, a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau 2014, (fel y'u diwygiwyd)

1. O ddydd Gwener 31 Mai 2019 i 27 Mehefin 2019 yn gynwysedig, y caiff unrhyw un â diddordeb, yn amodol ar Adran 30 y Ddeddf:
  - (a) Archwilio a gwneud copïau ac ymholiadau ynghylch cyfrifon y corff a enwir uchod am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019, a holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau perthynol trwy fewngofnodi i [www.sir-benfro.gov.uk/cyllid-a-busnes/archwilio-cyfrifon](http://www.sir-benfro.gov.uk/cyllid-a-busnes/archwilio-cyfrifon).
  - (b) Fel arall, gwneud trefniant i ymweld â Neuadd y Sir, Freeman's Way, Hwlfordd, SA61 1TP rhwng 10.00yb a 4.00yp. Mae modd gwneud trefniant naill ai trwy anfon e-bost at [sarah.bennett@pembrokeshire.gov.uk](mailto:sarah.bennett@pembrokeshire.gov.uk) neu drwy ffonio 01437 776290.
2. Ar neu ar ôl dydd Gwener 28 Mehefin 2019 am 10.00yb, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru neu ei gynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Cathedral Road, Caerdydd, CF11 9LJ, ar gais unrhyw etholwyr llywodraeth leol o'r ardal y mae'r cyfrifon yn berthnasol iddi, yn rhoi cyfle i'r etholwyr neu eu cynrychiolwyr ei holi ynghylch y cyfrifon yn Swyddfa Archwilio Cymru, Neuadd y Sir, Hwlfordd, SA61 1TP.
3. Fe all unrhyw etholwyr llywodraeth leol o ran unrhyw ardal y mae'r cyfrifon hynny'n berthnasol iddi, neu unrhyw gynrychiolwyr ar eu rhan, fynychu ger bron yr archwilydd a gwneud gwrthwynebiadau ynghylch
  - a) unrhyw fater y mae gan yr archwilydd bŵer i wneud cais am ddatganiad ar ei gyfer dan Adran 32 y Ddeddf;
  - b) unrhyw fater arall y gallai'r archwilydd wneud adroddiad arno dan Adran 22 y Ddeddf.
4. Nid oes modd gwneud unrhyw wrthwynebiad dan (3) uchod gan neu ar ran etholwr llywodraeth leol oni bai fod yr archwilydd eisoes wedi derbyn rhybudd ysgrifenedig o'r gwrthwynebiad arfaethedig ac ar ba sail y caiff ei wneud, a bod copi o'r rhybudd wedi'i anfon at y corff y mae ei gyfrifon yn destun archwiliad.